# Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

# Llangernyw

## Y Milwyr a Fu Farw • The Soldiers Who Died

**Edward Evan Ellis**, Is-Gorporal 202029, 2il/5ed Bataliwn, Catrawd Manceinion. Roedd yn fab i'r Heddgeidwad William Ellis a'i ddiweddar wraig Annie. Ganed ef yn Bryncynheulog, Llangernyw, ond erbyn dechrau'r rhyfel roedd y teulu wedi symud i 2 Stryd y Prior, Rhuthun. Bu farw'n 20 oed ar 18-7-1918 mewn ysbyty yn Valenciennes, wedi iddo fod yn garcharor rhyfel yn yr Almaen. Fe'i claddwyd ym Mynwent Gymunedol Valenciennes (St. Roch), yn Nord, Ffrainc. (Rhif y Bedd V.C.5)

**Thomas Price Ellis**, Preifat 38556, Cwmni B, Troedfilwyr Ysgafn Swydd Amwythig y Brenin . Mab arall i'r Heddgeidwad William Ellis. Cyn ymrestru, bu'n gweithio i'r 'Cambrian Mineral Water Co.' Bu yn y rhyfel yn Ffrainc am 5 mis cyn iddo farw o'i anafiadau ar 2-9-1918 yn 18 oed, yn y '46th Clearing Station', Ffrainc. Fe'i claddwyd yn y Fynwent Brydeinig, Bac-du-Sud, Bailleulval, Pas de Calais, Ffrainc. (Rhif y bedd, Plot 2, Row F, 29)

**David Morris**, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Mae'n debygol mai David Isaac Morris, gwas ffarm, oedd y milwr yma o Tŷ Canol, Siloam, a'i fod yn fab i William a Margaret Morris. Cyhoeddwyd ym mis Awst 1916 ei fod yn un a oedd yn dal cysylltiad â Llangernyw a'i fod wedi'i ladd yn gynharach yn y flwyddyn.

**David Ernest Jones**, Preifat 20699, 14eg Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Bu farw ar faes y gad yn Ffrainc ar 10-7-1916. Fe'i claddwyd ym Mynwent Filwrol Carnoy, Somme, Ffrainc. (Rhif y bedd T22). Ymddengys ei enw hefyd ar garreg fedd Robert Williams, Shop Isa ac Ann Jane Williams.

**David Jones**, Preifat 20698, 10fed Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Roedd yn un o'r chwe phlentyn a aned i David a Sarah Jones, Garnedd Bach. Ymunodd â'r fyddin ar ddechrau'r rhyfel. Fe'i clwyfwyd yn nechrau Mai 1916, rywle yn Ffrainc. Bu farw ar faes y frwydr yn Ffrainc ar 9-4-1917, yn 22 oed, o effaith ffrwydr-belen. Mae coffa amdano ar gofeb Arras, Pas-de-Calais, Ffrainc ac ymddengys ei enw ar garreg fedd ei rieni hefyd.

**William Jones**, Is-Gorporal 241150, 14eg Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ganed William Jones yn Hen Golwyn. Collodd ei dad yn ifanc ond fe ailbriododd ei fam, Mary Jane Jones, â'r saer maen Owen Davies, a bu'r teulu'n byw wedyn yn Bryn y Ffynnon, Pentre, Llangernyw. Bu farw William yn y rhyfel ar 26-8-1918 yn 19 oed. Mae Coffa amdano ym Mynwent Caterpillar Valley, Longueval, Ffrainc. (Rhif y bedd V.B. 16)

**John Roberts**, Preifat, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Bu'n gweithio ar fferm Nant Mawr cyn ymuno â'r fyddin. Bu farw John Roberts ym mrwydr y Dardanelles, wedi'i niweidio'n angheuol, yn 1915. Yn ôl yr Herald Cymraeg (21-9-1915) roedd yn frodor o Lysfaen ac yn unig fab ei fam.

**Robert Williams**, Preifat 2065, 2il Fataliwn, y Gwarchodlu Cymreig. Roedd yn fab i Robert a Jane Williams, Pentre Felin. Bu farw o niwmonia yng Ngwersyll Cinmel ar 22-10-1918 yn 23 oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Llangernyw gyda'i rieni.








Enw/ Name
of David Ernest Jones



David Jones




Plac Coffa
Memorial Plaque




Bedd / Grave
Robert Williams

**Edward Evan Ellis**, Lance Corporal 202029, 2nd/5th Battalion, Manchester Regiment. He was the son of Police Constable William Ellis and his late wife Annie. He was born at Bryncynheulog, Llangernyw, but by the beginning of the war the family had moved to 2 Prior Street, Ruthin. He died at the age of 20 on 18-7-1918 in a hospital at Valenciennes, having been a prisoner of war in Germany. He was buried at Valenciennes (St. Roch) Communal Cemetery, in Nord, France. (Grave No. V.C.5)

**Thomas Price Ellis**, Private 38556, B Coy., King's Shropshire Light Infantry. Another son of Constable William Ellis. Before enlisting, he worked for the 'Cambrian Mineral Water Co.' He had been in the war in France for 5 months before he died of his wounds on 2-9-1918 at the age of 18, in the '46th Clearing Station', France. He was buried at the British Cemetery, Bac-du-Sud, Bailleulval, Pas de Calais, France. (Grave no. Plot 2, Row F, 29)

**David Morris**, Royal Welsh Fusiliers. It's likely that this soldier from Tŷ Canol, Siloam, was David Isaac Morris, a farm worker, and that he was the son of William and Margaret Morris. It was announced in August 1916 that he had a connection with Llangernyw and that he had been killed earlier in the year.

**David Ernest Jones**, Private 20699, 14th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. He died on the field of battle in France on 10-7-1916. He was buried at Carnoy Military Cemetery, Somme, France. (Grave no. T22). His name also appears on the gravestone of Robert Williams, Shop Isa and Ann Jane Williams.

**David Jones**, Private 20698, 10th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. He was one of six children born to David and Sarah Jones, Garnedd Bach. He joined the army at the beginning of the war. He was wounded in early May 1916, somewhere in France. He died on the field of battle in France on 9-4-1917, at the age of 22, killed by a bombshell. He is commemorated on the Arras memorial, Pas-de-Calais, France and his name also appears on his parents' gravestone.

**William Jones**, Lance Corporal 241150, 14th Battalion Royal Welsh Fusiliers. William Jones was born in Old Colwyn. He lost his father at a young age but his mother, Mary Jane Jones remarried a stonemason Owen Davies, and the family then went to live at Bryn y Ffynnon, Pentre, Llangernyw. William died in the war on 26-8-1918 at the age of 19. He is commemorated at the Caterpillar Valley Cemetery, Longueval, France. (Grave no. V.B. 16)

**John Roberts**, Private, Royal Welsh Fusiliers. He worked at Nant Mawr farm before joining the army. John Roberts died at the battle of the Dardanelles, having been fatally injured, in 1915. According to the Herald Cymraeg (21-9-1915) he was a native of Llysfaen and was his mother's only son.

**Robert Williams**, Private 2065, 2nd Battalion, Welsh Guards. He was the son of Robert and Jane Williams, Pentre Felin. He died of pneumonia at Kinmel Camp on 22-10-1918 at the age of 23. He was buried at Llangernyw cemetery with his parents.